# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA
## COFNODION – CYFARFOD CHWEFROR 2020

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fercher, 19eg o Chwefror, 2020** |
| **AMSER** | **6.15yh – Cyfarfod Is-bwyllgor Cyllid**<br>**7.00yh Cyfarfod Misol y Cyngor** |
| **LLEOLIAD** | **YSGOL RHOSTRYFAN** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **Croeso** |
| | Estynnwyd croeso i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Michelle Williams. Yn bresennol roedd Bryn Hughes, Peter Roberts, Huw Rowlands, Tom Ellis, Gwilym Williams ag Eleri Thomas (Clerc). |
| **2.** | **Ymddiheuriadau** |
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwilym Thomas, Elin Evans, Rhodri Dwyfor, Nerys Evans, Jason Hunt ag Aeron M Jones. |
| **3.** | **Datgan Buddiant** |
| | Bryn Hughes – pwynt 7b Ceisiadau Nawdd – Aelod o Gorff Llywodraethwyr Ysgol Rhostryfan. |
| **4.** | **Cadarnhau cofnodion 15fed o Ionawr, 2020 a materion yn codi** |
| | Derbyniwyd y cofnodion fel y rhai cywir gyda BH yn cynnig ag MW yn eilio. |
| **5.** | **Materion Misol** |
| | a) NE – Twll yn llwybr Bryngwyn<br>Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi derbyn lluniau o'r pyst oedd wedi pydru a hefyd bod y cyn clerc yn cadarnhau mai Iestyn Davies wnaeth gwblhau'r gwaith ar y rhan yma o'r llwybr. Gan fod dipyn o amser wedi mynd heibio (2012) nid oedd sicrwydd os oedd gwarant ar y pyst. Clerc i gysylltu gyda'r contractwr.<br><br>b) Rhaglen waith 5 mlynedd 2019-2023<br>Yn absenoldeb AMJ oherwydd cyfnod salwch penderfynwyd ei dynnu oddi ar yr agenda ar hyn o bryd.<br><br>c) Problem Llygod – ardal Rhosgadfan<br>Sefyllfa llygod wedi gwella erbyn hyn. Dim i'w adrodd, felly penderfynwyd peidio ei gynnwys ar yr agenda nesaf.<br><br>d) Adborth HR - Cyfarfod Grŵp Cynefin, mis Rhagfyr<br>Adroddwyd fod hen safle Cwmni Express Motors wedi ei brynu er mwyn gwneud Meddygfa newydd, ynghyd a chlwb i'r henoed a'r ieuenctid.<br><br>e) Adroddiad gan Grŵp y Porwyr<br>BH wedi taro golwg dros yr adroddiad. Angen cyfeirio'r darn tir wedi ei gymryd oddi ar y comin ymlaen i Gyngor Gwynedd – Adran Cyfreithiwr.<br><br>f) Llwybr Ysgol Rhostryfan<br>Eitem i'w ystyried mewn 3 x mis. BH yn adrodd bod y risg wedi lleihau gyda'r ysgol wedi cymryd camau i rieni gasglu'r plant o'r ysgol.<br><br>g) NE – Dwr ar ffordd Wernlas Ddu<br>Wedi ei ddatrys erbyn hyn.<br><br>h) NE - cyn safle dwr dros y ffordd i Ben Ceunant, wedi ei brynu, angen sicrwydd nad oes plant yn mynd yno. Lleoliad peryglus – Cysylltu gyda Dŵr Cymru i holi.<br><br>i) NE - ceir yn parcio ar y llecyn gwair tu allan i dy Brŷn Melyn, Rhos Isaf. Angen gwahardd parcio ger eisteddle - holi am osod bolard? Wedi ei anfon ymlaen i Adran Trafnidiaeth, CG. |

| | |
|---|---|
| | j) TE - Holi beth ydi'r broses gyda chipio coed sydd wedi eu torri ar ochr y ffordd. I'w weld yn flêr a ddim yn cael ei chwalu'n daclus yn ôl i'r ddaear. Derbyniwyd yr ymateb - er mwyn hybu pryfetach.<br><br>k) EE – Angen i bobl fod yn wyliadwrus o ddwyn olew – clerc i holi am ymweliad gan yr heddlu i gyfarfod a'r Cyngor. Adroddwyd fod yr Heddlu yn brin o amser i ymweld â'r Cynghorau Cymuned.<br><br>l) GT - Angen llinell felen - o Ben Ffordd i Lyn Aber- wedi ei anfon ymlaen i'r Adran Drafnidiaeth.<br><br>m) GT - Adwy wedi ei agor o'r cae i'r lon dros ffordd i Cadfan Isaf - Wedi ei anfon ymlaen i'r Adran Gwaith Stryd.<br><br>n) BH – Baw cwn – heb dderbyn ymateb. Dilyn i fyny ac ymateb yn ôl.<br><br>o) GW - Isfryn ger Bryn Glas - gratin wedi suddo Pen Ceunant tuag at sgwâr Bryn Melyn – ateb CG – wedi ei roi o dan gategori 2 – i'w gwblhau pan mae'r adnoddau yn ei ganiatáu.<br><br>p) Biniau halen – dim ond ateb i ddweud fod Catrin Wager wedi derbyn yr e-bost. Clerc i'w ddilyn i fyny. |
| **6.** | **Derbyn Adroddiadau** |
| | a) Diweddariad gan yr Adran Priffyrdd<br>Lon Cae Garw wedi ei fesur ar gyfer gwaith clytio parhaol – disgwyl ei weithredu<br>Tŷ Hen – dwr yn llifo – wedi ei anfon ymlaen i'r Adran Gwaith Stryd.<br><br>b) Adborth Dion 17.01.20<br>Oherwydd y pryderon sydd wedi eu datgan ynglŷn â diogelwch plant, oes modd i'r Cyngor Cymuned dderbyn codi o'r asesiad risg a mesurau rheoli diogelwch ar gyfer defnydd plant o'r ardal. Gan fod hwn yn rhan o'r tir comin, ydi'r comisiynwyr, grŵp porwyr a CG yn ymwybodol o ddefnydd o'r safle? Estyn gwahoddiad i Dion i'r cyfarfod nesaf. |
| **7.** | **Materion Ariannol** |
| | **a) <u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar y 19eg o Chwefror, 2020</u>** |

**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (15.01.20) | 39,652.64 |
| - Trosglwyddo £3000 i'r cyfrif cyfredol (ar gyfer nawdd) | 3,000.00 |
| **Balans ar derfyn busnes 19eg o Chwefror, 2020** | **<u>£ 36652.64</u>** |

**<u>2. Cyfrif Siec</u>**

| | |
|---|---|
| Balans a ddygwyd ymlaen (15.01.20) | **5026.09** |
| + Trosglwyddo o'r cyfrif cadw | 3000.00 |
| + Claddedigaeth | 1500.00 |
| - Cyflog y Clerc – Ionawr 2020 | 465.20 |
| - Cyllid y Wlad – Ionawr 2020 | 105.80 |
| - Yswiriant Zurich | 1546.97 |
| **Balans ar derfyn busnes 19eg o Chwefror, 2020** | **<u>£7408.12</u>** |

| | |
|---|---|
| | **Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 19eg o Chwefror, 2020**<br><br>Cyflog y Clerc – Chwefror 2020 465.40<br>Cyllid y Wlad – Chwefror 2020 105.60<br>Un Llais Cymru 301.00<br><br>**Cyfanswm** **£872.00** |
| | a) **Ceisiadau nawdd 2019-2020**<br>Cynhaliwyd cyfarfod is-bwyllgor am 6.15yh. Yn bresennol roedd MW, BH a'r clerc. Trafodwyd y ceisiadau nawdd ac yna eu cynnig o flaen y Cyngor Llawn i'w cadarnhau.<br><br>Penderfynodd y Cyngor llawn i ariannu'r ceisiadau fel a ganlyn gyda MW yn cynnig a TE yn eilio:<br><br>**CEISIADAU AM NAWDD CHWEFROR 2020**<br>1 Canolfan Bro Llanwnda £250<br>2 Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle £50<br>3 Nyrsys Marie Curie £0<br>4 Eisteddfod yr Urdd £0<br>5 Dawns i Bawb £50<br>6 Ambiwlans Awyr Cymru £0<br>7 Lleu £150<br>8 Theatr Bara Caws £0<br>9 Ysgol Rhosgadfan £600<br>10 Canolfan Meithrin Llanwnda £600<br>11 Canolfan Hanes Uwch Gwyrfai £100<br>12 Ysgol Felinwnda £600<br>13 Clwb Felinwnda £100<br>14 Ysgol Rhostryfan £600<br>15 Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Nantlle £0<br><br>**Cyfanswm** **£3100**<br><br>b) **Eisteddfod Genedlaethol 2021 – Boduan**<br>Gofynnwyd i'r clerc gysylltu gyda'r Eisteddfod i ofyn am fantolen ariannol er mwyn trafod y cais. |
| **8.** | **Materion Cynllunio** |
| | a) Cais - C20/0088/24/AC - Tir ger Tan y Celyn, Sŵn y Môr a Talardd, Dinas, Llanwnda - Cais i newid amod 2 o gais C14/0386/24/LL er mwyn newid y cynllun safle ac edrychiadau a chynllun llawr er mwyn darparu math tŷ 5 diwygiedig mewn perthynas â phlot 11.<br>**Dim sylwadau a dim gwrthwynebiad.** |
| **9.** | **Gohebiaeth a chylchgronau** |
| | a) Aelodaeth Un Llais Cymru 2020/21<br>Cytunwyd i dalu aelodaeth am y flwyddyn 2020/21. |

| | |
|---|---|
| | b) Gwahardd a chyfyngu aros a mannau parcio ar y stryd<br>Adroddwyd er gwybodaeth.<br><br>c) Gorchymyn cau amryw lwybrau – ffordd osgoi newydd Bontnewydd<br>Adroddwyd er gwybodaeth.<br><br>d) Ymgynghoriad mwy nag ailgylchu<br>Anfon manylion ymlaen i PR, i fynychu'r cyfarfod.<br><br>e) Adroddiad drafft – ad-dalu costau gofal<br>Adroddwyd y cynnwys er gwybodaeth. |
| **10.** | **Materion Cyfarfod Nesaf** |
| | TE - PR – arwydd 30mya Llanwnda.<br><br>GW – Tai Bryn Peris, twll yn y ffordd.<br><br>GW – Rhiwan, Rhos Isaf – gwteri angen ei glanhau.<br><br>PR – Ffordd o Rostryfan tuag at Ffrwd Cae Du – twll yn y ffordd.<br><br>PR – Cyffwrdd Rhosgadfan – ceir ger wedi parcio ar y gornel.<br><br>MW – Tai newydd Rhosgadfan – neb yn byw ynddynt, er eu bod yn barod mis Gorffennaf.<br><br>MW – 13 Bro Cadfan, Tŷ preifat yn adeiladu lle parcio. Gofyn am dystiolaeth o gais cynllunio. Hysbysu eu bod yn creu drive heb ganiatâd, anhwylus i drigolion eraill.<br><br>BH – Gwalch yn holi pryd i wneud y toriad cyntaf. Penderfynwyd ei wneud pythefnos cyn Sul y Mamau.<br><br>**Dyddiad: 18fed o Fawrth, 2020**<br>**Lleoliad: YSGOL RHOSGADFAN**<br>**Amser: 7.00yh** |